MUSIC.
THEATRE.
WALES.

CYNHYRCHYDD CYMUNEDOL

DISGRIFIAD SWYDD HAWDD I'W DDARLLEN A GWYBODAETH CAIS

	Beth yw hwn? Mae Music Theatre Wales (neu "MTW") yn chwilio am rywun i ymuno â'n tîm fel Cynhyrchydd Cymunedol ar gytundeb llawrydd rhan-amser. Mae'r ddogfen hon yn esbonio mwy am y swydd a sut i wneud cais.
	Ymrwymiad Amser Tua 11 awr neu 1.5 diwrnod yr wythnos (gweithio'n hyblyg). Cytundeb 21 mis o Awst 2025 hyd Ebrill 2027.
	Tâl £26,100 cyfanswm ffi'r cytundeb (cyfwerth â £210 y dydd). Tâl misol ar ôl cyflwyno anfoneb.

MUSIC.
THEATRE.
WALES.

Am MTW

Mae MTW yn cynnig cyfleoedd i artistiaid a chynulleidfaoedd greu a phrofiopera gyfoes.

Rydym yn cyflwyno perfformiadau byw mewn theatrau a gofodau cymunedol, ac yn creu gwaith digidol byr a "opera celf stryd" yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc, pobl niwroamrywiol, ac o fewn lleoliadau cymunedol, i ddefnyddio cerddoriaeth fel dull o adrodd straeon.

Rydym yn gofyn - Beth yw Opera? Pwy sy'n ei greu? Ac i bwy mae hi?

Mae MTW yn elusen gofrestredig sy'n cael cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Am y rôl

Byddwch yn cefnogi ein rhaglenni gwaith creadigol yn Nhrebiwt a Threlluest.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chyfranogwyr cymunedol, aelodau tîm creadigol, MTW, a'n partneriaid.

Bydd y gwaith yn cynnwys:

	• Ymgysylltu Cymunedol • Datblygu Rhaglenni a Phartneriaethau • Rheoli Prosiectau
	Sut ydyn ni'n gweithio? • Part-time freelance contract with 4 weeks of unpaid leave. • Cymysgedd o weithio o Bafiliwn Grangetown a Chanolfan Diwylliant a'r Cyfryngau Loudoun (CMC). • Rhywfaint o waith yn swyddfeydd MTW yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter. • Hefyd, gweithio o gartref. • Tua 11 awr yr wythnos, wedi'i drefnu'n hyblyg. • Weithiau gweithio gyda'r nos neu ar benwythnosau. • Contract llawrydd rhan-amser gyda 4 wythnos o wyliau heb dâl.
	Beth mae Cynhyrchydd Cymunedol yn ei wneud? **<u>Ymgysylltu Cymunedol</u>** • Datblygu strategaeth recriwtio wedi'i ffocysu ar y gymuned. • Sefydlu perthnasau gyda rhanddeiliaid cymunedol allweddol.

- Creu a rhannu gwybodaeth (ar-lein, digidol ac ar bapur).

<u>Datblygu Rhaglenni a Phartneriaethau</u>

- Cynllunio a chyflwyno digwyddiadau cymunedol (gweithdai, sesiynau recriwtio).
- Cydlynu artistiaid, cyfranogwyr a phartneriaid.
- Nodi partneriaethau newydd gyda sefydliadau sydd â nodau tebyg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n gynhwysol, hygyrch a diogel.
- Paratoi gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei ddeall.

<u>Rheoli Prosiectau</u>

- Cynllunio ac amserlennu prosiectau a diweddaru'r amserlenni.
- Trefnu lleoedd, offer a staff ar gyfer gweithgareddau.
- Rheoli cyllidebau gyda Rheolwr Cyffredinol MTW.
- Paratoi asesiadau risg ar gyfer pob digwyddiad.
- Casglu ac adolygu data i asesu effaith y prosiectau.

<u>Cyffredinol</u>

- Cadw cofnod o'ch oriau
- Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd prosiect

	• Cwblhau hyfforddiant diogelu ar-lein ac unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen • Cwblhau gwiriad DBS (wedi'i dalu amdano gan MTW) • Cydymffurfio â pholisïau a gwerthoedd MTW a'r partneriaid prosiect • Eirioli dros ein gwaith **Bydd MTW yn eich cefnogi drwy hyn oll.**
 	**Who we're looking for** **Pobl sydd â**: • Y gallu i greu llefydd cynhwysol i bobl o bob math. • Caredigrwydd, agwedd gyfeillgar a gonestrwydd. • Sgiliau i greu cysylltiadau newydd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. • Diddordeb yn y celfyddydau neu'n gallu defnyddio creadigrwydd. • Cymhelliant i greu newid a chyfiawnder cymdeithasol. • Gwybodaeth am gymunedau Grangetown a Butetown. • Y gallu i weithio'n dda mewn tîm, cyfathrebu syniadau a chadw pawb wedi'u cynnwys ac yn wybodus. **Byddai'n braf petasech chi hefyd yn medru cynnig:** • Profiad yn y celfyddydau neu brofiad o arwain prosiectau a chynnwys cymunedau.

	• Profiad o ymgyrchu, trefnu neu weithredu ar y cyd. • Profiad personol sy'n adlewyrchu cymunedau Grangetown a Butetown. • Dealltwriaeth o'r sector diwylliannol ehangach. • Y gallu i siarad Cymraeg neu ieithoedd eraill a ddefnyddir gan aelodau'r gymuned. • Profiad o weithio ar brosiectau i bobl sydd wedi wynebu rhwystrau i gymryd rhan yn y celfyddydau ac/neu bobl niwroamrywiol neu gydag anableddau dysgu. • Gwybodaeth sylfaenol am ddiogelu, iechyd a diogelwch, a chynllunio risg. Rydyn ni'n annog pobl o bob cefndir i wneud cais. Rydyn ni'n cynnig cyfweliad wedi'i warantu i unrhyw un sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ac sy'n anabl, yn niwroamrywiol, neu'n rhan o'r mwyafrif byd-eang.
 	Sut i wneud cais: Gallwch wneud cais mewn un o'r ffyrdd isod: **1. Ar-lein:** Llenwch y ffurflen Google sydd wedi'i chysylltu yma. **2. Dogfen drwy e-bost:** Lawrlwythwch y ffurflen yma, teipiwch eich atebion a'i hanfon i kathryn@musictheatre.wales Defnyddiwch y pwnc "Community Producer Application".

	3. Fideo neu sain: Recordiwch eich atebion i'r cwestiynau ar y ffurflen mewn fideo neu ffeil sain (hyd at 10 munud). Anfonwch y ffeil trwy WeTransfer i kathryn@musictheatre.wales Cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yn y neges WeTransfer. **Ffurflen Cyfle Cyfartal:** Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r ffurflen Gyfleoedd Cyfartal ddienw sydd wedi'i chysylltu yma.
	**Dyddiadau allweddol:** • **Dyddiad cau:** 5pm, Dydd Mercher 4 Mehefin 2025 • **Cyfweliadau:** Dydd Llun 16 a Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025 • **Dyddiad dechrau:** Dydd Llun 4 Awst 2025
	Cwestiynau? Anfonwch e-bost at Kathryn Joyce, Rheolwr Cyffredinol MTW: kathryn@musictheatre.wales

	Awgrymiadau: • Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n ateb bob maen prawf – rydyn ni eisiau gwybod pwy ydych chi a pham rydych chi eisiau'r swydd. • Cymerwch eich amser gyda'r cais. Gallwch ddefnyddio'r disgrifiad swydd i'ch helpu. • Os oes gennych chi unrhyw ofynion mynediad neu addasiadau rhesymol, cysylltwch â kathryn@musictheatre.wales
	Cydraddoldeb a Chynhwysiant Yn MTW, rydyn ni'n ymrwymedig i greu mwy o gydraddoldeb yn ein sefydliad ac fel cyflogwr. Rydyn ni'n credu mewn cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol, ac nad yw cwotâu yn newid dim oni bai bod y diwylliant yn newid hefyd. Mae newid yn digwydd ledled y sefydliad – yn y gwaith rydyn ni'n ei greu, y bobl sy'n ei greu, y cynulleidfaoedd, y staff a'r bwrdd. Gallwch ddarllen ein Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yma: https://musictheatre.wales/wp-content/uploads/2024/11/EDI-Policy.pdf